# Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Llawn nos Iau 13eg o Chwefror 2025 yng Nghanolfan Gymunedol Penrhosgarnedd am 7 o'r gloch

1. **Presennol/Present**
   Cyng Ieuan Ellis (Cadeirydd), Cyng C W Owen (Is-gadeirydd), Cyng L A James, Cyng D Jones-Morris, Cyng G Owen, Cyng J Griffiths, Cyng E Roberts, Cyng J Pierce

2. **Ymddiheuriadau/Apologies**
   Cyng B Jones, Cyng A Joyce, Cyng J Dafydd, Cyng M Jones a'r Clerc

3. **Croeso/Welcome**
   Croesawyd pawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

4. **Datgan buddiant/Declaration of Interest**
   Cyng L A James yn datgan ei bod yn ymddiriedolwr ar gyfer Canolfan Penrhos.

5. **Derbyn cofnodion/Accept Minutes 9fed Ionawr/January, 2025**
   Cywiriad - eitem 9 - mabwysiadu Polisi Iaith Cyngor Pentir
   Yn dilyn trafodaeth, gan gynnwys derbyn sylwadau gan y Cyng A Joyce y mabwysiadwyd y Polisi Iaith.
   Cywiriad - eitem 3 - sillafiad Cadeirydd.
   Cywiriad - eitem 7 - sillafiad y gair bod.
   **Derbyniwyd y cofnodion gan nodi'r cywiriadau uchod ar gynnig y Cyng J Griffiths a eilwyd gan y Cyng G Owen.**

6. **Materion yn codi o'r cofnodion/Matters arising**
   **Cae Caerhun -** dim ymateb eto i ohebiaeth y Clerc i Gyngor Gwynedd.
   **Sbwriel Ysbyty Gwynedd** - dim ymateb eto i ohebiaeth y Clerc i Ysbyty Gwynedd. Awgrymodd y Cyng D Jones-Morris y dylid trefnu dirprwyaeth o'r Cyngor Cymuned i drafod y sefyllfa'n uniongyrchol gyda'r ysbyty. Bydd cyfle hefyd i drafod datblygiadau fwy eang yng nghyswllt gwasanaethau'r Ysbyty efo Claire Hughes AS maes o law yn ystod ei hymweliad a'r Cyngor.
   **Goleuadau Nadolig** - nodwyd bod llythyr diolch wedi'i anfon gan y Clerc at yr Adran Goleuadau Stryd.
   **Llwybr Llesiant** - bydd llinellau melyn yn cael eu gosod ar gyffordd Coed y Maes yn ystod mis Mawrth.

7. **Materion ariannol/Financial issues**
   **Mantolen ariannol/Financial report**
   Roedd y fantolen ariannol o fewn y pecyn ddosbarthwyd yn dangos £29,354.31 yn y cyfrif cyfredol a £41,578.94 yn y cyfrif cadw.

   **Cofnodion cyfarfod IBC/Minutes of SFC 29/1/25**
   **Derbyniwyd y cofnodion ar gynnig y Cyng D Jones-Morris a eilwyd gan y Cyng E Roberts.**

**Materion yn codi o'r cofnodion/Matters arising**
**Ceisiadau am Nawdd** - cymeradwywyd a chadarnhawyd argymhelliad yr IBC i gyfrannu £300 i Gymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen a £300 i bapur bro'r Goriad.
**Cadarnhau taliadau a thaliadau angen sylw** - cymeradwywyd a chadarnhawyd yr holl daliadau a rhestrwyd dan eitem 6 o gofnodion yr IBC.
**Archwiliad allanol** - nodwyd fod y Cadeirydd wedi ysgrifennu at yr Archwilydd yn herio rhai o'r sylwadau a ymddengys yn ddi-sail.
**Cais Sian Gwenllian AC am gefnogaeth** - nodwyd bod y Clerc wedi ysgrifennu i ddatgan cefnogaeth i'r Ysgol Ddeintyddol a chymeradwywyd y penderfyniad i ohebu gan y Cyngor Llawn.
**Cyflog y Clerc** - Cymeradwywyd y penderfyniad i godi cyflog y Clerc o bwynt 23 i bwynt 24 sef £17.79 yr awr wedi'i ôl ddyddio i 1af Ebrill, 2024.
**Lightsource Energy** - cytunwyd bod angen arweiniad cyfreithiol gan Vernon Oliver mewn perthynas â'r nawdd. Nodwyd, er gwybodaeth bod ymgynghoriadau ar y gweill gan Tetra Tech Planning a Brockwell Energy er nad ydynt o fewn ffin y Cyngor.
**Polisiau**
**Polisi Cadw/Gwaredu Dogfennau -** cymeradwywyd y polisi.
**Rheoliadau Ariannol -** IBC angen eu gwirio cyn eu cyflwyno i'r Cyngor Llawn.
**Polisi Cwynion -** cymeradwywyd y polisi gan gytuno ar yr addasiadau a ganlyn:
**-** newid Aelodau Etholedig i Gynghorwyr;
- os oes cwyn yn erbyn y Clerc, y Cadeirydd fydd yn archwilio'r gwyn.
**Polisi Ymddygiad Blinderus** - cymeradwywyd y polisi.
Diolchwyd i'r Cyng L A James am ei gwaith gyda'r polisiau ac i'r Clerc am ei waith gyda'r archwiliad allanol.

**8. Cynllunio/Planning**
Nid oedd unrhyw sylwadau na gwrthwynebiad i gais C25/0016/25/LL - 10 Chesnut Court, Ffordd y Parc, Parc Menai, Bangor, LL57 4FH i newid defnydd o swyddfa i glinig Prawf Llygaid.

**9. Materion y Clerc/Topics from the Clerk**
**Hyfforddiant Cod Ymddygiad -** y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'r Clerc i fynychu.
**Hyfforddiant Cyllid** - Cyng L A James i fynychu.
**Capel y Fynwent** - gwaith ar y llawr yn cychwyn wythnos nesaf.
**Diweddariad y Ganolfan/Ysgol y Faenol**
Adroddwyd yn dilyn trafodaethau rhwng yr Eglwys yng Nghymru a Chyngor Gwynedd bod y Ganolfan bellach ym mherchnogaeth Cyngor Gwynedd. Mae trafodaethau wedi cychwyn rhwng y Cadeirydd, y Clerc a'r Cyng L A James a Chyngor Gwynedd i drafod y pen telerau, yr amserlen a gwyntyllu'r pryderon.
**10. Materion y Cynghorwyr/Councillor Topics**
Adroddwyd bod y Cyng Menna Baines yn trefnu i waith glanhau a chasglu sbwriel ddigwydd ar Ffordd Menai.

Cyng J Griffiths yn dymuno nodi cyflwr truenus y cloddiau ar bwys y ffyrdd yn ei ardal sydd angen eu tacluso gan Gyngor Gwynedd. Y Clerc i ohebu ar y mater.

**Daeth y cyfarfod i ben am 9.20 yh**